# Cofnodion Cyfarfod
# Cyngor Cymuned Pistyll
Nos Fawrth 10fed o Fedi, 2019 am 7:00y.h



Cadeirydd: Y Cyng. Sara Williams

| | | |
|---|---|---|
| **Presenol:** | | Sara Williams **(SW),** Griffith Jones **(GJ),** Gwilym Williams **(GW)**, Lizbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**, Emlyn Hughes **(EH)**, Cyng. Aled Jones **(AJ)** |
| **1.** | | **Hysbysiadau'r Cadeirydd**<br>Croesawodd **SW** pawb i'r Cyfarfod ac ymestyn llongyfarchiadau i **SP**, **LJ** a thrigolion y pentref ar ddathlu 10 mlynedd o lwyddiant gyda'r Siop. Estynnodd longyfarchiadau hefyd i **YE** a ' i wraig ar enedigaeth eu mab Gwion ar y 4ydd o Fedi, a diolchodd i **GJ** am atgyweirio'r fainc ar ran y Cyngor yn ddiweddar. |
| **2.** | | **Ymddiheuriadau ac absenoldeb**<br>John Owen **(JO)**, Olwen Roberts **(OR)**, Ynyr Ellis **(YE)**, William Jones **(WJ)**. |
| **3.** | | **Datgan Diddordeb**<br>Dim |
| **4.** | | **Diweddariadau asedau**<br>Cafwyd adroddiadau ar gyflwr gwahanol asedau'r Cyngor. |
| **5.** | | **Cofnodion Cyfarfod Gorffennaf, 2019** |
| | ***5.1*** | **Cyflwyno a mabwysiadu**<br>Cynigiodd **GW** gywirdeb y Cofnodion, eiliodd **LJ** ac feu mabwysiadwyd. |
| | ***5.2*** | **Materion yn codi**<br><br>**1. Ffurflen Buddiannau**<br>Atgoffwyd y Cyngor fod y Clerc eto i dderbyn ffurflenni gan rai o'r aelodau<br>***Y Clerc i'w yrru yn ddigidol i'r Aelodau gofynnol***<br><br>**2. Cwyn gan LJ am dipio anghyfreithlon yn Lôn Rhosydd gyferbyn a Phig y Delyn –**<br>Y sbwriel wedi ei glirio can Cyngor Gwynedd. |

*Llofnodwyd gan..............................................................................Dyddiedig........................................................*

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*

| | | |
|---|---|---|
| | | **3. Cwynion am lygredd sain gan awyrennau sy'n hedfan yn ddyddiol**<br>Nodwyd yn dilyn cwyn i awdurdodau RAF Valley gan yr Aelod Lleol derbyniwyd cadarnhad gan Mr. D Williams (Squadron Leader) mae hyfforddiant hanfodol y T1 Texan yn ogystal â'r Hawk T2 sy'n anffodus yn creu'r llygredd Sain yn dilyn penderfyniad gan yr MOD i'w symud i RAF Valley o Yorkshire. Cynnigiodd wahoddiad i gynrhychioldd or Cyngor i'r RAF Valley mis Hysdref i gwrdd â'r personél dan sylw, er mwyn gwerthfawrogi pam y cynhelir yr hyfforddiant a gofyn unrhyw gwestiynau.<br>***SP*** *i dderbyn cyfeiriad priodol gan yr Aelod Lleol er mwyn ei ychwanegu i Llythyr Llithfaen i drigolion y pentref wneud cwynion pellach yn y cyfamser os bydd angen.*<br>**4. Cais gan GJ am ail doriad i'r fynwent**<br>Nodwyd fod y gwaith wedi ei gwblhau gan Danny's garden service yn dilyn trefniadau gan y Clerc. |
| **6.** | | **Ceisiadau Cynllunio**<br>Dim |
| **7.** | | **Baw Ci yn y Pentref**<br>Cyflwynodd **SP** bosteri parhaol wedi eu argraffu gan Argraffdy Eryri Cyf, yn dilyn llwyddiant Llio Gethin mewn cystadleuaeth creu poster. Cytunwyd yn unfrydol eu lleoliadau a diolchwyd **SP** am y trefniadau.<br>*Y Clerc i sicrhau tal am y gwaith.* |
| **8.** | | **Diweddariad am y Wal fregus ar y ffordd i'r Nant gan Swyddog AHNE**<br>Derbyniwyd gwybodaeth gan Uwch Beiriannydd YCG bydd gwaith atgyweirio'r wal o Treddafydd hyd at Mount Pleasant yn cychwyn ar y 23ain o Fedi, 2019 ac yn parhau am oddeutu 6 wythnos - contractwyr y gwaith fydd Dinas Contracting Ltd.<br>Croesawodd yr Aelodau'r wybodaeth. |
| **9.** | | **Cwyn gan Adran Gynllunio am wersylla dros nos yn Faes Parcio ger Troed Yr Eifl**<br>Derbyniwyd cais am wybodaeth bellach gan Swyddog o'r Adran Cynllunio<br>***Y Clerc i gysylltu gyda'r wybodaeth ganlynol -***<br>• *Y Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol am y maes parcio cyfan*<br>• *Yr Aelodau'n ymwybodol bod gwersylla dros nos ar y safle yn ystod gwyliau Banc a.y.b.*<br>• *Nid yw'r Cyngor wedi derbyn unrhyw gwynion uniongyrchol ynglŷn â gwersylla dros nos*<br>• *Mae'r biniau'n cael eu gwagio'n rheolaidd ac nid oes sbwriel anghyfreithlon yn cael eu gadael ar y safle.* |
| **10.** | | **Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 - Dyletswydd Cynghorau Chymuned a Thref o dan Adran 6**<br>Cynigiodd **SP** wneud cais am wybodaeth Cymraeg, cytunwyd yn unfrydol.<br>*Y Clerc i weithredu.* |

*Llofnodwyd gan..........................................................................................Dyddiedig.........................................................*

| | | |
|---|---|---|
| **11.** | | **Materion Lleol**<br>Cais gan **OR** – gordyfiant clawdd o amgylch Pont Bryn Celyn<br>Cais gan **SW** - gordyfiant wrth Lys Mair, Llithfaen, gwrychoedd yn tyfu i'r palmant a thrigolion yn gorfod camu i'r lon.<br>Cais gan **SP** - gwrychoedd wedi gordyfu ar y chwith o Lithfaen am Bont Bryn Celyn<br>*Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.* |
| **12.** | | **Hysbysiad gan yr Archwilwyr Allanol**<br>Nodwyd y Clerc bod pwyntiau amodi wedi codi o'r archwiliad ac yn anffodus ei bod yn rhy hwyr i'w datrus.<br>*Y Clerc i'w ychwanegu i' Rhaglen Waith.* |
| **13.** | | **Gohebiaeth a Gwybodaeth** |
| | ***13.1*** | **Ffioedd archwilio 2017-18**<br>*Y Clerc i gyflawni tal i'r Archwilwyr* |
| | ***13.2*** | **Cais am rodd gan Gymdeithas Parêd Dewi Sant Pwllheli tuag at orymdaith ym Mhwllheli mewn partneriaeth gydag ysgolion, mudiadau a busnesau lleol am 11am ar ddydd Sadwrn 29ain Chwefror, 2020**<br>*Cadw mewn golwg erbyn Ebrill.* |
| | ***13.3*** | **Cais i hysbysebu Hyrwyddo Cyrsiau Cymraeg i Oedolion gan Ddysgu Cymraeg Gogledd Orllewin**<br>*Y Clerc i gysylltu â gofyn am bosteri i'r Siop a'r ganolfan.* |
| | ***13.4*** | **Arolwg i ddarganfod mwy am ddefnydd y sector o fecanweithiau digidol i ymgysylltu, cwrdd â rhannu gwybodaeth â chymunedau gan Bartneriaethau Llywodraeth Leol.**<br>*Y Clerc i'w gwblhau.* |
| | ***13.5*** | **Arolwg o ' r hyn mae pobl yn ei feddwl am systemau cynllunio yng Nghymru, Gogledd Iwerddon & Rep of Ireland.**<br>*Aelodau i'w lenwi fel unigolion.* |
| | ***13.6*** | **Cymru Oed-Gyfeillgar Cylchlythyr**<br>*Derbyniwyd fel gwybodaeth, dim sylwadau pellach.* |
| | ***13.7*** | **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi lansio tudalen Facebook**<br>*Derbyniwyd fel gwybodaeth, dim sylwadau pellach.* |
| | ***13.8*** | **Nodyn atgoffa - Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru 05/10/19**<br>*Derbyniwyd gel gwybodaeth, dim sylwadau pellach.* |
| | ***13.9*** | **Hyfforddiant Unllais**<br>*Derfynwyd fel gwybodaeth, dim sylwadau pellach.* |
| | ***13.10*** | **Bwletin newyddion Un Llais Cymru**<br>*Derbyniwyd fel gwybodaeth, dim sylwadau pellach* |

*Llofnodwyd gan.........................................................................................Dyddiedig..........................................................*

| | | |
|---|---|---|
| | *13.11* | **Her Cymunedau Mentrus - canllawiau a ffurflen cais**<br>*Derbyniwyd fel gwybodaeth, dim sylwadau pellach.* |
| **14.** | | **Cyllid** |
| | *14.1* | **Cyfrifon**<br>Rhannwyd y Cyfrifon i'r Aelodau o flaen llaw. Adolygwyd a chymeradwywyd y Llyfr arian, Cysoniad banc, a Rhagamcanion 2019/20.<br>Cynigiodd **GW** eu cywirdeb, eiliodd **LJ** a chytunodd pawb. |
| | *14.2* | **Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf**<br><br>**<u>Cyfrif Cyfredol</u>**<br><br>Taliadau - Cyflog Clerc £160.00<br>Treuliau Clerc £ 21.33<br>Cyflog Awst Clerc £160.00<br>Treuliau Awst Clerc £ 10.00<br>Llio Gethin £ 20.00<br>Danny Osborn £100.00<br>Danny Osborn £ 60.00<br><br>Balans- **£3,761,75**<br><br>**<u>Cyfrif Cadw</u>**<br><br>Balans- **£3,082.55** |
| | *14.3* | **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod**<br><br>Archwilwyr Allanol am Archwiliad 2017-18 £464.66<br>Hughes Jones Dyson (PAYE) £180.00<br>Cyflog Clerc £160.00<br>Treuliau Clerc £ 28.18<br>Argraffdy Eryri Cyf £78.00<br>(*Ni fydd tal Argraffdy Eryri yn ymddangos yn y llyfr bank tan fis Hydref)* |
| | *14.4* | **Derbyniadau**<br><br>Diolchodd y Cadeirydd am y rhodd caredig o **£320.60** gan Ras y 3 Chopa tuag at y Deffiblwr<br>*Y Clerc i drefnu taliad i gyfrif cadw'r Cyngor* |
| **14.** | | **Dyddiad y Cyfarfod nesaf**<br>8fed o Hydref 2019 |

*Llofnodwyd gan.........................................................................................Dyddiedig.........................................................*

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*